
Rota:

Agor a Croesawu - Bore - Mae angen enwau
Nos - Mae angen enwau

Paned -

| | | |
|---|---|---|
| Stori Plant: | 6 | - Steffan |
| | 13 | - Dafydd |
| | 20 | - Gwydion |
| | 27 | - Euryn |
| Ysgol Sul: | 6 | - Sylvia |
| | 13 | - Delyth |
| | 20 | - Ann |
| | 27 | - Elin |
| Cyfeilio: | 6 | - Hywel, Mair (nos) |
| | 13 | - Debs a Sarah, Ann (nos) |
| | 20 | - Hywel a Gwydion, Heledd (nos) |
| | 27 | - Mair a Jane, Debs (nos) |

Edrychwch ar daflen y mis ar y wefan - www.capelyffynnon.org




Capel y Ffynnon
Penrallt Isaf
Bangor
Rhif Ffon 01248 361117
E-bost dafyddmj@gmail.com
Safle wê - capelyffynnon.org

**E**styn allan yn **E**ffeithiol i'r Gymuned gyda neges **B**erthnasol

# Capel y Ffynnon

## Taflen y Mis, Mawrth, 2011



'Fel hyn y dywed ARGLWYDD y Lluoedd: Dychwelwch ataf fi,' medd ARGLWYDD y Lluoedd, 'a dychwelaf finnau atoch chwi,' medd ARGLWYDD y Lluoedd.

Sechareia 1:3

## Cyfarfodydd Mawrth

## Suliau (10 a 6)

6 - Dafydd Job (Cymun Bore)
13 - Dafydd Job
20 - Dafydd Job (Cymun Nos)
27 - Dafydd Jones (bore)
Steffan Job (nos)

## Cyfarfodydd Wythnosol

**Dydd Llun (yn y Capel)**
**Ribidires** (9.30)

**Dydd Mawrth (yn y Capel)**
**Cyfarfod gweddi** (12.30)

**Dydd Iau (7.30 yn y Capel)**
3 **Astudiaeth (Actau 26)**
10 **Cwrdd gweddi**
17 **Cyfarfod gweddi cenhadol**
23 a 24 **Cyfarfodydd Cartref**

**Cyfarfod Merched**
Bore Sadwrn 5 - Tŷ Steff a Debs

**Crempog yn y Capel**
P'nawn Sadwrn - 12 (3.30)

**Cyfarfod Dynion**
Nos Fawrth 15 (8.00) - I'w gadarnhau

**Bore coffi dysgwyr**
Bore Sadwrn 26 (10.00) - Capel

## APÊL AR RAN SIOP LYFRAU CRISTNOGOL BANGOR



### Trefniadau newydd

Bellach nid oes staff cyflogedig yn y siop ac mae'n dibynnu'n llwyr ar wirfoddolwyr. Oherwydd hynny mae'r oriau agor yn newid i 10 tan 4 dydd Llun i ddydd Gwener. Ar hyn o bryd, ni fydd yn agor ar fore Sadwrn. Hoffwn apelio arnoch i ystyried chwarae rhan yn nyfodol y siop- dyma rai ffyrdd y gellir gwneud hynny.

GWEDDÏO - Gwaith Duw yw'r siop a rhan o weinidogaeth yr efengyl i'r rhan hon o Ogledd Cymru. Ein dymuniad cyson yw cyrraedd ein cymdogaeth gyda'r newyddion da am ein Harglwydd . Mae'r siop yn un ffordd o wneud hynny ac yn ddrws agored am 30 awr pob wythnos ac yn dystiolaeth barhaol ym Mangor Uchaf. Os gwelwch yn dda ceisiwch fendith Duw ar y dystiolaeth fel y bydd yn effeithiol er Ei ogoniant ac er iachawdwriaeth i lawer.



PRYNWCH – Fel gydag unrhyw siop mae angen gwerthiant. Er ei bod yn hwylusach ac yn rhatach efallai cael llyfrau dros y we, a yw'n bosibl i chi wneud mwy o ddefnydd o'r siop? Mae peidio ag agor ar fore Sadwrn a lleoliad y siop yn ei gwneud hi'n anodd i chi efallai ymweld . Er mwyn lleihau'r broblem hon fe fydd llyfrau ar gael i'w prynu yn yr eglwys yn rheolaidd a derbynnir archebion gennych. Hyd yn oed os nad ydych yn gwybod am lyfr penodol fe ddof â nwyddau i chi gael golwg arnynt.

RHOWCH- Mae'r Pasg yn agosáu - beth am roi llyfr i rywun i ddwyn tystiolaeth i'r hyn a wnaeth ein Duw trosom. Neu beth am brynu llyfr neu ddeunydd lliwio i blentyn yn ychwanegol at yr wy siocled arferol!!



GWIRFODDOLWCH - Mae gwir angen mwy o wirfoddolwyr. A fyddech yn gweddïo'n benodol ynglŷn â hyn ac yn tynnu sylw unrhyw Gristnogion yn y cylch at yr angen. Nid oes yn rhaid ysgwyddo cyfrifoldeb mawr - fe fyddai cael ail berson i fod yn y siop am gyfnod byr yn ystod y dydd yn gwmni ac yn gaffaeliad mawr i'r 5 gwirfoddolwr presennol. Diolch